Yn ddiweddar iawn llwyddwyd i gael catalog hardd dwyieithog sy'n dwyn y teitl, *'100 years Mutterturm in Landsberg'*, a baratowyd ar gyfer dathlu canmlwyddiant yr arddangosfa fawr a sefydlwyd yn Neuadd y Ddinas honno gan Herkomer ei hun ym 1888. Yn y catalog fe geir crynodeb pur lawn o fywyd yr arlunydd, ond ni welir cyfeiriad at ei gysylltiad â Chymru, ar wahân i'r nodyn iddo briodi Lulu, 'a Welsh girl'. Dyna'r cwbl.

O dan yr amgylchiadau nid oedd y bwlch yma yn peri syndod, oblegid prif amcan yr arddangosfa oedd cyflwyno Herkomer fel arlunydd o statws Ewropeaidd, ac i brofi y cydnabyddid rhinweddau ei waith ar lwyfan byd-eang. Mae'n amlwg y bu'r ddeuoliaeth yn ei fywyd, yn tarddu o'i ymlyniad wrth yr Almaen a Phrydain, yn faen tramgwydd proffesiynol deublyg iddo ar un adeg.

Cyfoethogir y catalog yn ddifawr gan atgynhyrchiadau o bortreadau rhagorol o law yr arlunydd, ac yn arbennig yn y cyswllt yma o'i rieni, ohono ef ei hun, o Margaret ac o'u dau blentyn — Lorenz (1889-1922), a Gwenddydd (1893-1927). Ymbriododd y ferch â Dr J. Ruffle o Landsberg, ac ni chawsant blant. Hyd y gwelir daeth rhawd uniongyrchol y teulu i derfyn pan fu farw Margaret ym 1934 yn 77 mlwydd oed.


Nid oedd amheuaeth am ddidwylledd Herkomer yn ei berthynas â Chymru, nac am ei ddiddordeb brwd yn ein diwylliant fel cenedl. Ar Orsedd y Beirdd a'r Eisteddfod y canolbwyntiodd ei weithgarwch. Fe groniclodd ei syniadau mewn pamffledyn sylweddol sy'n eithaf prin erbyn hyn — *Art Culture in Wales (A Lecture)*. Nid oes dyddiad arno ond fe awgrymir 1897 yn hyderus.

Mae'r ddarlith yn broffwydol a thra phwysig, ac nid yw'n bosibl gwneud cyfiawnder â'r cynnwys crynodeb byr. Mae'n amlwg iddo dynnu nyth cacwn ar ei ben. Meddai: 'Mae'r Athro Morris Jones yn ddicllon iawn wrthyf . . .' Fodd bynnag, mae'n ddigon mawrfrydig i haeru na frifwyd ei deimladau pan ddywedodd yr Athro amdano — yn ddigon anfoesgar mae'n rhaid addef: 'Am yr amddiffynnydd diwethaf (o'r Orsedd) nid oes wrth gwrs ond un farn; yn achos yr Athro Herkomer anwybodaeth ydyw, anwybodaeth affwysol'. Dyna ergyd hyno o ddiras i Academydd Brenhinol a chyn-Athro yn Rhydychen.


Er cryfhau ei achos fe aeth Morris Jones gam ymhellach, a cham eithafol ydoedd, pan haerodd 'nad oedd pobl Cymru erioed wedi ystyried yr Orsedd fel dim ond ffars dirmygedig' — *'a contemptible farce'*. Mae'n destun syndod, yn wyneb y fath sylwadau difrïol, i Herkomer fod mor rasol â pharhau mor eiddgar a dyfal yn ei ymdrechion — heb sôn am ei haelioni.

Dadlennol hefyd oedd sylwi mor wahanol oedd natur ymateb yr Almaenwr. Roedd brawddeg olaf ei ymresymiad yn wers mewn graslonrwydd i'r Cymro. Meddai: 'Ond rwy'n awyddus dweud ar goedd fy mod yn mawrhau athrylith a chyraeddiadau ysgolheigaidd yr Athro Morris Jones, a gobeithiaf na fydd yn ystyried fy mod yn ddiffygiol mewn cwrteisi yn y modd yr atebais ef'.

A'r cyfeiriad olaf yw at y ddwy gyfrol ar hanes y teulu — *The Herkomers* (1910 a 1911) — a ysgrifennwyd gan Syr Hubert ei hun. Am resymau aneglur cafwyd trafferth mawr dod o hyd i'r ail gyfrol, tra roedd y gyntaf yn hwylus wrth law mewn nifer o lyfrgelloedd safonol.



I Ddathlu
Canmlwyddiant geni
JOHN SAUNDERS LEWIS



Rhodd enbyd yw bywyd i bawb.
o SIWAN

Y mae deddf foesol Duw yn uwch
na deddfau gwladwriaeth Lloegr.
ac fe hawlia ein hufudd-dod ni
yn erbyn llywodraeth Loegr.
o GYNHADLEDD 1936

Taenais aden fy mreuddwyd
drosot ti, fy ngwlad: . . .
Codaswn it — O, pes mynasit —
gaer fai bêr:
o CAER ARIANRHOD

1993

Mae'r sgroliau o waith E. Meirion Roberts, Hen Golwyn, at ddathlu ymweliadau'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd â gwahanol ardaloedd wedi dod yn greiriau sy'n cael eu casglu erbyn hyn.

Mae'r sgroliau, fel rheol, yn nodi a dangos lluniau o lenorion, beirdd, a chartrefi enwogion y broydd hynny ac yn cael eu gwerthfawrogi fel rhoddion ar benblwyddi a dathliadau teuluol.

Mae Pwyllgor Cronfa Goffa Saunders Lewis (Arfon) wedi bod yn ffodus i gael Mr E. Meirion Roberts i lunio sgrôl arbennig ar gyfer dathlu canmlwyddiant geni'r Dr Saunders Lewis. Pum cant (500) yn unig sydd wedi cael eu hargraffu a'u fframio — yn ogystal â'u rhifo — a'r cyfan mewn lliw llawn ac wedi eu llythrennu mewn coch a du ac yn gwerthu am £25 yr un — a'r elw yn mynd at chwyddo'r Gronfa Goffa.

Guto a Marian Roberts, Garreg Boeth, Clynnog Fawr (Teleffon: 0286 660742) sy'n gofalu am y dosbarthu ac fe allant hwy gyfarwyddo unrhyw un at wahanol ddosbarthwyr trwy Gymru.

Gwelir oddi wrth y llungopi du a gwyn a geir yma mai tri dyfyniad o weithiau Saunders Lewis a atgynhyrchir — y cyntaf yn ei gofnodi fel dramodydd; yr ail yn gofnod o un o'i anerchiadau gwleidyddol a'r olaf yn ddyfyniad o'i gerdd 'Caer Arianrhod' sy'n brawf o'i gyfraniad fel bardd, ac mae'r tair nodwedd yn cael eu hailadrodd yn chwaethus yn y masgiau, tŷ Penyberth a'r cwilsyn ac inc.

Dichon fod ymysg darllenwyr *Y Casglwr* rai brwd dros drysori gweithiau E. Meirion Roberts yn ogystal â rhai'n llawn awyddfryd i gyflwyno 'i blant eu plant' gofnod am un o gewri'r genedl.